




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoi **rhan 6** o

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol
- pan mae ganddyn nhw anabledd
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu
- pan maen nhw'n derbyn gofal
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdany'n nhw fel y dylen nhw wneud
- pan maen nhw'n gadael gofal ac yn cael eu cefnogi i ddod yn oedolion.

Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**.

(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cyngorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 6.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan
- [cliciwch yma](#):



Paratoi

Bydd pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw'n defnyddio'r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Felly rydyn ni wrthi'n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae'r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthyh chi am y Cod Ymarfer a rhai o'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 6 y Ddeddf.

Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol, a rhai plant a phobl ifanc ynglŷn â'r rhain yn barod, ond nawr rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.

Wedyn, byddwn ni'n anfon y codau a'r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio'n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.



Beth y mae Rhan 6 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 6 y Ddeddf yn edrych ar faterion gwasanaethau cymdeithasol nad ydyn nhw'n cael sylw yn y 10 rhan arall.

Mae'r rhain yn cynnwys y pethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud:

- cefnogi plant sy'n derbyn gofal
- cefnogi plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae yna 8 maes i'r rhan yma o'r Ddeddf:

1. Cynllunio gofal a chymorth

Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arny'n nhw.

Mae gan y plant a'r bobl ifanc i gyd sy'n derbyn gofal gynllun gofal a chymorth sy'n manylu ar yr help y maen nhw'n ei gael a phwy sy'n ei roi.

Mae'r cod ymarfer yn manylu ar y cyfrifoldebau a'r ddyletswydd ar bob awdurdod lleol:

- i wneud yn siŵr bod gofal a chymorth yn cael eu cynllunio
- i gynnwys cymorth oddi wrth adrannau iechyd ac addysg
- i ddiwallu anghenion unrhyw gynllun llys sydd ar waith.

2. Lleoliadau

Dod o hyd i leodd diogel i fyw.

Mae'n hynod bwysig cael y lleoliad iawn, ar yr adeg iawn. Gall lleoliadau fod gydag aelod o'r teulu, ffrind, rhieni maeth neu mewn cartref plant.

Mae'r cod ymarfer yn manylu ar:

- sut dylid gofalu am blant a phobl ifanc
- sut mae'n rhaid i leoliad ddiwallu anghenion
- sut mae'n rhaid i leoliad beidio ag effeithio ar addysg neu darfu arni.

Mae hefyd yn manylu ar ganllawiau i awdurdodau lleol ar:

- sut i benderfynu pa un yw'r lleoliad gorau ar gyfer plentyn neu berson ifanc
- pa wybodaeth y mae angen ei chofnodi
- beth i'w wneud pan ddaw lleoliad i ben
- beth sydd angen digwydd os yw lleoliad y tu allan i Gymru.



3. Cyswllt ac ymweliadau

Cadarnhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymweld â phlant mewn lleoliadau i gadarnhau eu bod nhw'n cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae'r Ddeddf yn manylu ar ganllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol fel eu bod nhw'n deall:

- diben ymweliadau
- canlyniadau ymweliadau a'r gwahaniaeth y dylen nhw ei wneud
- pa mor aml y dylai ymweliadau ddigwydd
- sut dylid cadw gwybodaeth.

Efallai y bydd angen i rai plant a phobl ifanc gael ymwelydd annibynnol, os nad ydyn nhw mewn cysylltiad rheolaidd â'u rhieni neu os ydyn nhw mewn lleoliad sy'n bell i ffwrdd o gartref.

4. Adolygu achosion

Gwirio gofal a chymorth.

Mae gan bob awdurdod lleol Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal, sy'n gwirio sut mae gwasanaethau'n gweithio ac yn dangos iddyn nhw sut gallan nhw weithio'n well.

Mae'r Ddeddf yn esbonio beth y dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol ei wneud ac mae ganddi ganllawiau ar eu rôl a'u swyddogaethau.



5. Gadael gofal

Helpu pobl ifanc i fyw yn annibynnol.

Mae'r cod ymarfer yn manylu ar:

- drefniadau ar gyfer gadael gofal
- cynlluniau llwybr ar gyfer pobl ifanc sy'n troi yn 16 oed fel eu bod nhw'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd
- rôl cynghorwyr personol
- y cymorth y mae pobl ifanc yn gallu ei gael nes eu bod nhw'n 25 oed.

Mae hefyd yn manylu ar bob un o'r gwahanol ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn gadael gofal fel bod awdurdodau lleol yn deall pa lefel a pha fath o gymorth y dylen nhw ei roi.

6. Trefniadau byw ôl-18

Rhoi dewis i bobl ifanc.

Mae llawer o bobl ifanc yn symud ymlaen i fyw yn annibynnol pan maen nhw'n troi yn 18 oed ond maen nhw eisiau aros gyda'u rhieni maeth. Mae'r cynllun newydd 'Pan Fydda i'n Barod' yn eu helpu nhw i wneud hyn.

Cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'

Mae'r Ddeddf newydd yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarganfod a yw pobl ifanc eisiau aros gyda'u rhieni maeth ar ôl iddyn nhw droi yn 18 oed. Mae'n rhaid iddyn nhw drafod hyn â'r bobl ifanc a'u gofalcwyr maeth pan maen nhw'n troi yn 16 oed. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gefnogi'r bobl ifanc a'u gofalcwyr maeth os ydyn nhw eisiau parhau i fyw gyda'i gilydd. Gallwch chi aros nes eich bod chi'n 21 oed, neu'n 25 oed os ydych chi mewn addysg neu hyfforddiant.

Mae'r canllawiau newydd yn manylu ar:

- nodau ac amcanion y cynllun
- pwy sy'n gallu cymryd rhan
- sut bydd yn gweithio.



7. Llety diogel

Cadw pobl yn ddiogel.

Mae angen gofalu am rai pobl ifanc mewn cartrefi diogel i blant. Gall hyn fod i'w cadw nhw neu'r cyhoedd yn ddiogel.

Mae'r ddeddf yn manylu ar ganllawiau ar gyfer:

- sut dylid gofalu am blant a phobl ifanc mewn cartrefi diogel
- pa leoliadau y dylen nhw eu cael
- yr amser hiraf y gall lleoliad bara cyn i lys ddechrau ymyrryd.

8. Plant mewn mathau eraill o sefydliadau

Lleoedd eraill y mae plant yn derbyn gofal.

Mae'n bosibl bod plant a phobl ifanc yn derbyn gofal oherwydd bod ganddyn nhw anghenion eraill. Mae hyn yn cynnwys anghenion iechyd ac addysg arbennig.

Mae'r Ddeddf yn manylu ar ganllawiau ar gyfer awdurdodau lleol fel eu bod nhw'n deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldeb i wirio ac ymweld â phlant sy'n derbyn gofal:

- gan awdurdodau iechyd mewn ysbytai annibynnol
- gan awdurdodau addysg
- mewn cartrefi gofal.

Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fydddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk
neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol
Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

erbyn 31 Gorffennaf, 2015



Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Cod Ymarfer a'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 6 y Ddeddf yn syniad da?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw:

Sylw:

